

FRÂN WEN



Y RIBIDIREW OLAF



Pecyn Creadigol

FRÂN WEN



Da ni gyd yn gorfod
tyfu i fyny rhywbryd.

Neu ydan ni?





Cynnwys:

Dyma rai syniadau am bethau y gallwch eu gwneud (os ydych chi isio!) gan Deian:

A Loli

— Helfa yn y
— theatr! —

Creu theatr
eich hunain!

Adolygiad
o'r sioe!

Cymorth i
siaradwyr
newydd

Ymarfer
ymdawelu
Pawen
Dawel!

Dylunio a
chreu gwisgoedd

A lot mwy!





Creu theatr



Os ydych chi'n mwynhau chwarae rôl cymaint â Loli a fi, beth am fynd ati i smalio bod yn y theatr?

Pwy sy' isio bod ar y llwyfan? Gallwch berfformio unrhyw beth! Canu, dawnsio, comedi, chwarae offeryn...

Mae o tu ôl i ti!!

Cofiwch bydd angen criw fel cynulleidfa i chwertthin a chlapio ar yr adegau cywir!


Syniad!

Os ydych chi am gynnal sioe, bydd angen gwerthu tocynnau. Beth am ddylunio tocynnau ac yna eu gwerthu?





Creu theatr



Y llwyfan a'r llen!

Beth fyddwch chi eu hangen:

- Ffon hir (bambw ella) neu frwsh llawr.
- Hen lenni, cynfasau neu flancedi.
- Rhywbeth i ychwanegu uchder naill ochr ac i ddal y ffon bambw.

Stêcs planhigion Mami o'r ardd ddefnyddion ni!
Basai cadeiriau naill ochr yn gweithio hefyd.



Syniad!

Mae yna wastad hen focsys cardfwrdd yn y tŷ neu'r dosbarth... be' am drïo creu theatr pypedau?





Yn y theatr



'Da ni'n caru mynd i'r theatr, mae o'n le arbennig i bawb. Ydi'ch theatr chi yn hygyrch i bawb?


Yn ogystal â'r helpa ar y dudalennesaif, chwiliwch am y ffyrdd y mae'r theatr yn croesawu a galluogi pawb i gymryd rhan.

Sylwch os oes yna glustffonau ar gael i'r sain ddisgrifio? Bydd dehongliad Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar gael mewn rhai perfformiadau.

Syniad!

Beth am greu "rhestr wirio hygyrchedd theatr" o'ch theatr lleol ac asesu eu nodweddion hygyrchedd, fel rampiau cadair olwyn, dyfeisiau caypsiynau, ac opsiynau synhwyraidd-gyfeillgar.





Helfa'r Theatr!



- 1 Edrychwch ar y llythrennau a rhifau ar bob rhes a phob sedd. Allwch chi weithio allan ym mha sedd rydych chi'n eistedd?
- 2 Ffeindiwch lenni'r llwyfan a sylwi ar eu lliw a phatrwm.
- 3 Dewch o hyd i boster sy'n hysbysebu'n sioe ni, Y Ribidirew Olaf!
- 4 Nodwch oleuadau'r llwyfan a chyfrwch faint o liwiau gwahanol y gallwch eu gweld.
- 5 Chwiliwch am y bŵth sain. Oes yna unrhyw un yn ei weithredu?



Pawen Dawel


Má'r gêm yma'n ein
helpu ni i ymdawelu a
theimlo'n bresennol
yn y foment... mond
am foment!



Syniad!

Beth am yrru fidio ohonoch
chi yn gwneud yr ymarfer?
Yn y ty? Yn yr ardd... yn y
theatr?

- 5 Pum peth y gallwch eu gweld
- 4 Pedwar peth y gallwch eu clywed
- 3 Tri pheth y gallwch eu teimlo
- 2 Dau beth y gallwch eu harogli
- 1 Un peth y gallwch ei flasau



Dewiniaid Dylunio


Cai Dyfan:

Mae Cai yn gynllunydd set a gwisgoedd ac yn rēl dewin efo'r bense! Mae'n rhaid iddo gydweithio â'r tîm cyfan a defnyddio amryw o ddeunyddiau ac adnoddau i ddod â syniadau'n fyw ar y llwyfan!



Waaaw!





Dewiniaid Dylunio

Llinos Griffiths Gough:

Gwneuthurwr a goruchwyliwr gwisgoedd ydi Llinos, h.y. dewin-wraig efo nodwydd a thâp mesur! Mae hi'n cydweithio â'r dylunydd (Cai) i ddod â'i ddarluniau'n fyw. Mae hi'n defnyddio lliw, gwedd a phatrwm i gyfleu syniadau ac ysgogi emosiynau.



Yn galed wrth ei gwaith!



Mae yna lot o sgwrsio a nôl-a-mlaen rhwng Cai a Llinos cyn i bopeth fod yn barod.

Dewiniaid Dylunio

Gweithio fel tîm i'r
dyluniad ddod yn fyw! Yn
cyflwyno...Pry Cop!




Mae pob manylyn yn bwysig!
Pob gwead a phob defnydd!
Lawr i'r botwm lleiaf!



Creu!

Eich Tro Chi!



Sgets yn gyntaf!

Be' am i chi ddylunio ffrind dychmygol? Beth am wneud lluniau o'r ffrind, fel brasluniau Cai.

Beth i'w gynnwys tybed... Cyrn? Cynffon? Plu, cen neu flew? Meddyliwch am liwiau, patrymau, maint ac unrhyw nodweddion nodedig.

Syniad!

Beth am sgwennu stori am eich ffrind newydd? Meddyliwch am ble mae'n byw, beth yw ei hoffterau a'i gas bethau?



Trowch y dudalen i weld sut i wneud eich mwgwd natur eich hun.

???



Bwn Bwn!

Mwgwd natur



Edwyn

'Da ni wrth ein bodd yn chwarae yn yr ardd neu mynd am dro i chwilio am drysorau byd natur! (Cofiwch wryio gyda'ch oedolyn am beth sy'n ddiogel i'w bigo!)



Gwrc o Blaned Bloda



Beth fyddwch chi ei angen:-

- Dail a phetalau
- Plu
- Cardfwrdd
- Pensil
- Siswrn
- Gwlan neu liny

Tynnwch lun siâp mwgwd ar y cardfwrdd a'i dorri allan yn ofalus. Rhowch lud drosto i gyd a'i addurno â phethau hyfryd o'r ardd. Gwnewch dwll yn y ddwy ochr a thynnwch wlân drwyddo er mwyn ei wisgo.



Gwisgoedd natur

Peidiwch â stopio yn fan yna!
Beth am freichled, mwclis neu
wregys o flodau? Dwi râl boi
am wneud cadwyn llygaid y dydd!



Dwi'n licio addurno
cyffiau garddwrn efo
petha' o'r ardd



Syniad!

Beth am ddylunio a chreu gwisg
nesa?

Gwasgod o blu ffansi i Capten?

Clogyn smart i Pry Cop?

Efallai fod yna hen ddefnydd y
gallwch chi ei ddefnyddio i greu
gwisg newydd i Jaci?



Gweddill y tîm



Artistiaid

- Dramodydd - Manon Wyn Jones
- Cynhyrchydd Creadigol - Angharad Elen
- Cyfarwyddwr - Gethin Evans
- Cynllunydd Set a Gwisgoedd - Cai Dyfan
- Cyfansoddwr - Bethan Mai
- Cynllunydd Sain - Sam Jones
- Cynllunydd Goleuo - Ceri James
- Cyfarwyddwr Symud - Rebecca Wilson
- Gwneuthurwr a Goruchwyliwr Gwisgoedd - Llinos Griffiths Gough
- Cyfarwyddwr Castio Plant ac Ymgynghorydd Stori - Martin Thomas
- Is-gyfarwyddwr - Emma Mace

Beth sa' chi'n hoffi roi cynnig arni pe baech chi'n cael y cyfle?

Well i ni beidio anghofio am y rhain mae'n siwr!



Syniad!

Beth am wneud ychydig o ymchwil ar y wê i bob rôl? Beth ydi cynnwys bob swydd?



Cerddoriaeth



Tipyn o sŵn!

Beth oeddech chi'n feddwl o gân 🎵
Capten?

Mae cerddoriaeth yn y theatr yn helpu i adrodd y stori, yn gosod y naws, ac yn gwneud popeth yn fwy cyffrous. Pan fydd yr arwr ar fin achub y dydd, yn aml mae cerddoriaeth epig yn chwarae a phan mae'r cymeriadau'n drist, mae'r gerddoriaeth yn ein helpu ni i deimlo eu hemosiynau.

Mae cerddoriaeth fel cynhwysyn cyfrinachol, sy'n helpu i wneud sioeau theatr mor hudolus!



Syniad!

Beth am wneud sain coedwig hudolus neu ddinaslan prysur? Gadewch i'ch dychymyg redeg yn wyllt!



'Da ni'n licio creu ein cerddoriaeth ein hunain!

Cydiwch yn unrhyw beth y gallwch chi ddod o hyd iddo o gwmpas y tŷ - potiau, sosbenni, cynwysyddion plastig, hyd yn oed y bandiau rwber hynny sy'n gorwedd o gwmpas.

Gallwch dapio, ysgwyd, neu hyd yn oed chwythu ar yr eitemau hyn i wneud synau gwahanol.



Beth oedd eich hoff ran o'r sioe?

Pa gymeriad oeddech chi'n ei hoffi fwyaf a pham?



Adolygiad!

(Dwedwch y gwir!)

Beth oedd y rhan mwyaf cyffrous neu ddoniol?

Beth oedd eich hoff wisg?



Dewch o hyd i ni ar TikTok!
@cwmnifranwen



Beth oeddech chi'n feddwl o'r setiau?

Unrhyw beth nad oeddech yn ei hoffi?

Syniad!

Beth am yrru clip fideo o'ch atebion? Ewch i gefn y llyfr i weld sut i gysylltu.

Adolygiad!

Pa gymeriad fydddech chi eisiau bod petaech chi yn y sioe?

Sut oeddech chi'n teimlo ar ddiwedd y sioe?

Ystyriwch pob un synnwyr, gan gofio am y Bawen Dawel!





Gawn ni weld?

FRÂN WEN
NYTH
FFORDD GARTH
BANGOR
GWYNEDD
LL57 2RW

Fasen ni wrth ein bodd yn gweld unrhyw rai o'ch syniadau chi; o ddarluniau gwisgoedd i recordiadau sain!

Gyrrwch eich campweithiau i Frân Wen, un ai dros e-bost neu drwy'r post.



POST@FRANWEN.COM



Siaradwyr newydd

Y stori - The story

Mae hi'n ddiwrnod cyntaf Deian a Loli yn yr ysgol fawr! Mae Deian wedi cyffroi'n lân ond dydi Loli ddim isio mynd.

Ar ben bob dim, mae goriadau'r car ar goll ac mae Loli'n mynnu mai eu ffrind dychmygol sydd wedi eu dwyn nhw. Mae Deian yn sylweddoli nad oes ganddo fawr o ddewis ond ymuno efo Loli i ddweud y gair hud, a rhewi eu rhieni - gan fynd ar drywydd y goriadau coll ar antur fwyaf eu bywydau.

It's Deian and Loli's first day at 'big school'! Deian is really excited but Loli doesn't want to go.

On top of everything, the car keys are missing and Loli insists that their imaginary friend has stolen them. Deian realises that he has little choice but to join Loli to say the magic word, and freeze their parents - chasing the missing keys on the biggest adventure of their lives.



Geirfa - Glossary

Prolog - Prologue

In the kitchen, five years ago, the twins invented an imaginary friend named Capten . Deian and Loli were six years old.

CYMRAEG

anturiwr

bydysawd

ENGLISH

adventurer

universe





Act 1

Golygfa 1 Scene

In the kitchen, present day. It's the twins' first day at secondary school. Deian is excited but Loli doesn't want to go and hides under the table. Mam is cleaning the cupboard whilst Mami prepares herself for an important work meeting.

CYMRAEG

diniwed
cofrestru
cyfarfod
allwedd
goriadau
anghofio
dychmygol
plentynnaidd
dyrchafiad

ENGLISH

innocent
registration
meeting
keys
keys
forget
imaginary
childish
promotion



SW - dishgwl yn olreit
NW - edrych yn iawn
Eng - do I look alright



Act 2

Golygfa 2 Scene

We can tell by the change in colour and lighting that we are now in the magical world. As they look for the missing keys, the twins' imaginary friend Capten appears.

CYMRAEG

cyfadda'
dwyn
serch
bai ar gam
o ddifri'
faeddu

ENGLISH

admit
steal
despite/ though
getting the blame wrongly
serious
to soil/ dirty



SW - pwr dab â hi
NW - bechod arni
Eng - poor thing

Capten is referring to the nursery rhymes Deryn y Bwn o'r Banna and Pwsî Meri Mew in this scene. He also mentions Cwm Rhyd y Rhosyn, a fictional land of nursery rhymes.



Capten is referring to the nursery rhyme *Fuoch chi rioded yn morio* in this scene when he mentions the Isle of Man. He also mentions the song *Sosban fach*.

Act 3

Golygfa 3 Scene

Deian, Loli and Capten find themselves rolling into the cupboard amidst the dust and realise that they have shrunk! As they search for the keys they stumble upon Jaci, an old toy from their childhood as well as Pry Cop the spider.

CYMRAEG

annibendod
atgoffa
tymhestlog
padell ffrio
cwestiynau
ffydd
atgof
breuddwyd
canolbwytio
digwilydd
direidus
cynhyrfus
chweched synnwyr
dannedd minion
heglwch chi'r ffernols
celwydd noeth
achwyn
cwmpawd
difaru
gwmpo mas
ymdopi

ENGLISH

mess/ clutter
remind
tempestuous
frying pan
questions
faith
recollection
dream
concentrate
rude
mischievous
exciting
sixth sense
sharp teeth
Scoot, you terrors
barefaced lie
complain
compass
regret
fall out
cope



SW - cwato
NW - cuddio
Eng - to hide

SW - ffili
NW - methu
Eng - can't

SW - becco
NW - poeni
Eng - worry



Act 4

Golygfa 5 Scene

Loli and Jaci are playing in the cupboard whilst Deian searches for Pry Cop to help him find the others. Jaci tricks Loli into staying with her in the box, enticing her in with biscuits and then trapping her inside.

CYMRAEG

annibynadwy
lle chwech
penderfynu
cyfforddus
llwglyd
rhag dy gwilydd
diegwyddor
dychymyg
beryg bywyd
anghofio
we fyd eang
esbonio
anferth

ENGLISH

unreliable
toilet
decide
comfortable
hungry
how dare you
unprincipled
imagination
dangerous
forget
world wide web
explain
gigantic



SW - corryn
NW - pry cop
Eng - spider





Act 4

Golygfa 6 & 7 Scene

Stuck in the box with Jaci, Loli discovers what has happened to Capten. Meanwhile, Pry Cop is winning Deian over and convinces him to help her create her very own 'World Wide Web'. Unbeknown to Deian, poor Capten is trapped in her web.

CYMRAEG

plentynnaidd
 call
 gwybodus
 cyfla
 rhoi lluch

ENGLISH

childish
 sensible
 knowledgeable
 chance/ opportunity
 fling/ thrown out



Act 4

Golygfa 9 Scene

Deian is working hard on Pry Cop's web. She has him typing frantically but he is exhausted and types as though in auto-pilot. As the web lights up, Capten continues to fade away.

CYMRAEG

creaduriaid
 clên
 doeth
 annwyl
 barod eu cymwynas
 ffiaidd
 drewllyd
 diniwed
 hyfryd
 cariadus
 perffaith
 erlid
 di-baid
 galluog
 oes newydd
 gwirionedd
 prydferth
 dathliad
 pry lludw
 chwain

ENGLISH

creatures
 kind
 wise
 beloved
 helpful
 vile
 smelly
 innocent
 lovely
 loving
 perfect
 persecute
 continually
 brainy
 a new age
 truth
 beautiful
 celebration
 woodlice
 fleas



Act 4

Golygfa 10 Scene

Back in Jaci's box, Loli begins to realise how lonely and rejected Jaci must have felt. Loli begins to tell her all about the wider world beyond her box. Can she convince Jaci to let her out?

CYMRAEG

chwerthin
gorffwys
unig
ofnus
bai
anghofio
anhygoel
machlud
tân gwyllt

ENGLISH

laughing
rest
lonely
frightened
fault
forget
incredible
sunset
fireworks



SW - dwgodd
NW - cymryd
Eng - take



Act 4

Golygfa II Scene

Loli and Jaci have come to the realisation that there is a big world of opportunity waiting for them. Meanwhile Deian is still typing, hypnotised and transfixed on his job. The dust mice encourage the audience to help jolt Deian back to reality which also awakens Capten, who returns to the scene.

CYMRAEG

hunllef
 cannoedd
 syllu
 cyfaddef
 anturiaethau
 ymffrostio
 celwyddau
 bob un wan jac
 shimna hud
 cyflogi
 diogyn
 cachgi

'hen ben ar sgwydde ifanc'

ENGLISH

nightmare
 hundreds
 staring
 admit
 adventures
 boasting
 lies
 every single one
 magic chimney
 employ
 lazy person
 coward

'old head on young shoulders'



Act 5

Golygfa 12 Scene

Capten uses his new found wings to fly him and Deian up from Pry Cop's den and they arrive in the cupboard the same time as Loli and Jaci. Can they make amends and return to the real world together?

CYMRAEG

coelio
cenfigennus
ysbryd
byth bythoedd
pleser
llwgu

ENGLISH


believe
jealous
spirit
forever and ever
pleasure
hungry



Y Pethau Bychain'
mewn cydweithrediad â
Frân Wen

www.franwen.com

www.ypb.cymru



FRÂN WEN